



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif: WG55025

Ymgynghoriad ar y Strategaeth Cyllid Natur Cymru ddrafft

Dogfen Ymgynghori

Dyddiad cyhoeddi: 26 Hydref 2026

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 29 Ionawr 2027

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg / We welcome correspondence and telephone calls in Welsh

Trosolwg

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r Strategaeth Cyllid Natur Cymru ddrafft i fod yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Mae'r strategaeth ddrafft hon yn esbonio sut mae Llywodraeth Cymru am fynd ati i gynyddu'r buddsoddiad mewn adnoddau naturiol i greu Cymru ffyniannus, wydn ac iachach. Mae'n adlewyrchu gwaith ymgysylltu helaeth a wnaed â rhanddeiliaid allweddol yn ystod 2026.

Sut i ymateb

Ymatebwch drwy lenwi'r ffurflen ar-lein neu lenwi'r holiadur hwn a'i anfon i:

E-bost: Natur.Cyllid@llyw.cymru

Os ydych am ymateb yn ysgrifenedig, anfonwch y ffurflenni ar ôl eu llenwi i:

Is-adran y Môr a Bioamrywiaeth

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae'r ddogfen hon [ar gael yn Saesneg hefyd](#).

Mae'r ddogfen hon ar gael mewn print bras, Braille neu mewn ieithoedd eraill ar gais.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

E-bost: Natur.Cyllid@llyw.cymru

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer ymgynghoriadau Llywodraeth Cymru ac unrhyw ddata personol a roddwch wrth ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut i gyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithlon dros brosesu gwybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru (Erthygl 6(1)(e)).

Bydd staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw, neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol, yn gweld unrhyw ymateb a anfonwch atom yn llawn. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, gall hyn hefyd gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Os bydd Llywodraeth Cymru yn dadansoddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad ymhellach, efallai y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud gan drydydd parti achrededig (er enghraifft, sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Dim ond o dan gontract y gwneir gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion llym ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi cael ei gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Gallwn hefyd gyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Rydym yn cyhoeddi ymatebion yn ddienw ac ni chaiff eich enw na'ch manylion cyswllt eu cynnwys. Os hoffech i'ch enw neu fanylion eraill gael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, rhowch wybod inni pan fyddwch yn cyflwyno eich ymateb, a byddwn yn eu cynnwys.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gallai Llywodraeth Cymru fod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu rhywfaint o wybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw ddata arall sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- i gael gwybod am y data personol a gedwir amdanoch, a gweld y data hynny
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- i wrthwynebu prosesu neu gyfyngu ar brosesu'r data (o dan amgylchiadau penodol)
- i ofyn inni 'ddileu' eich data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gludadwyedd y data (o dan amgylchiadau penodol)
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan GDPR y DU, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

CAERDYDD

CF10 3NQ

E-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House

Water Lane

Wilmslow

Swydd Gaer SK9 5AF

Ffôn: 0303 123 1113

Gwefan: <https://cy.ico.org.uk/>

Cynnwys

Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data (GDPR y DU).....	3
Cyflwyniad.....	7
Cefndir	7
Ymateb i'r ymgynghoriad.....	7
Gwybodaeth bersonol	8
Rhan 1: Amodau	9
Cwestiynau'r ymgynghoriad.....	9
Cwestiwn 1a: Ydych chi'n credu mai'r pum amod a nodir yn y strategaeth ddrafft yw'r sylfeini cywir ar gyfer cynyddu cyllid natur yng Nghymru?.....	9
Cwestiwn 1b: Beth, os rhywbeth, y dylid ei gryfhau, ei newid neu ei egluro yn yr amodau a nodir yn y strategaeth ddrafft?	10
Cwestiwn 1c: Ydych chi'n credu bod y nodweddion a ddefnyddir i asesu parodrwydd Cymru i gynyddu cyllid natur yn briodol?.....	10
Cwestiwn 1d: Ydych chi'n credu bod sgôr aeddfedrwydd y nodweddion yn adlewyrchu'r sefyllfa yng Nghymru yn gywir?	11
Rhan 2: Rolau a chyfrifoldebau	12
Cwestiynau'r ymgynghoriad.....	13
Cwestiwn 2a: Ydych chi'n credu bod y swyddogaethau a nodir yn y strategaeth ddrafft yn ddigonol i gefnogi'r gwaith o ddarparu cyllid natur yng Nghymru?	13
Cwestiwn 2b: A hoffech chi rannu unrhyw beth penodol am unrhyw un o'r swyddogaethau craidd? Gallwch wneud sylwadau ar gynifer neu gyn lleied ag y mynnwch.	13
Cwestiwn 2c: Pa rôl, os o gwbl, allech chi neu'ch sefydliad ei chwarae yn y system cyllido natur yng Nghymru?	14
Rhan 3: Llywodraethu.....	15
Cwestiynau'r ymgynghoriad.....	16
Cwestiwn 3a: Ydych chi'n credu bod y model dangosol a'r egwyddorion llywodraethu yn rhoi'r cydbwysedd cywir rhwng galluogi buddsoddiad a chynnal cadernid amgylcheddol, tryloywder a gwerth cyhoeddus?.....	16
Cwestiwn 3b: A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei rannu am y model dangosol a'r egwyddorion llywodraethu?	16
Rhan 4: Cynllun cyflawni	17
Cwestiynau'r ymgynghoriad.....	18
Cwestiwn 4a: Ydych chi'n credu mai'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun cyflawni yw'r blaenoriaethau cywir ar gyfer datblygu cyllid natur yng Nghymru?.....	18
Cwestiwn 4b: Ydych chi'n cytuno â dilynant y camau gweithredu a'r blaenoriaethu a gynigir ar draws y tri cham?	18

Cwestiwn 4c: Pa gamau gweithredu yn y cynllun cyflawni ydych chi neu'ch sefydliad eisoes yn cyfrannu atynt?	19
Cwestiwn 4d: Pa gamau gweithredu yn y cynllun cyflawni allech chi neu'ch sefydliad eu cefnogi yn y dyfodol?	19
Cwestiwn 4e: Pa gymorth fyddai ei angen arnoch chi neu'ch sefydliad i gyfrannu at gyflawni'r strategaeth? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.	20
Cwestiwn 4f: Oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer modelau, cynlluniau neu ddulliau cyllido natur y gellid eu profi yng Nghymru?	20
Rhan 5: Cwestiynau olaf.....	21
Cwestiwn 5a: Pa mor bwysig yw cyllid natur yn eich barn chi i wireddu'r uchelgeisiau canlynol i Gymru?	21
Cwestiwn 5b: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y strategaeth ddrafft ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	22
Cwestiwn 5c: Yn eich barn chi, a fyddai modd llunio neu newid y strategaeth ddrafft er mwyn gwneud y canlynol:.....	22
Cwestiwn 5d: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad hwn. Os oes gennych unrhyw sylwadau, tystiolaeth, astudiaethau achos neu enghreifftiau ychwanegol a fyddai'n helpu i wella'r strategaeth ddrafft, rhwch nhw isod:	23
Atodiad 1: Rhanddeiliaid sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith hyd yn hyn	24
Atodiad 2: Rhestr o ymgynghoreion	25
Y rhai sy'n derbyn copi.....	25

Cyflwyniad

Cefndir

Mae adnoddau naturiol yn sail i economi, cymunedau, iechyd a gwydnwch Cymru. Ond, mae ein hadnoddau naturiol mewn cyflwr gwael ac mae'r buddsoddiad sydd ar gael ar hyn o bryd i atal a gwrthdroi'r dirywiad hwn yn annigonol. Er y bydd arian cyhoeddus yn parhau i fod yn hanfodol, mae angen buddsoddiad preifat ychwanegol i sicrhau bod natur yn adfer a bod adnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy ar y raddfa sy'n ofynnol.

Mae'r Strategaeth Cyllid Natur Cymru ddrafft ('y strategaeth ddrafft') yn esbonio ein dull o gydlynw gweithredu i ysgogi a chyfeirio buddsoddiad tuag at ganlyniadau amgylcheddol cadarnhaol. Mae cyllid natur yn cyfeirio at gyllid cyhoeddus, preifat a chymysg sy'n cael ei wario ar weithgareddau sy'n adfer a diogelu adnoddau naturiol neu eu rheoli'n gynaliadwy i sicrhau canlyniadau amgylcheddol. Mae'n canolbwyntio ar greu'r amodau sydd eu hangen i gyllid lifo'n effeithiol tuag at adfer ein hadnoddau naturiol gan gynnal cadernid amgylcheddol, tryloywder a gwerth cyhoeddus ar yr un pryd.

Datblygwyd y strategaeth ddrafft drwy gyfres o weithdai â rhanddeiliaid a gynhaliwyd yn ystod haf 2026. Rydym yn ddiolchgar iawn i bob un o'r gweithwyr proffesiynol hynny a gyfarfu â ni ac a rannodd wybodaeth. Rydym wedi rhestru'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli yn Atodiad 1.

Ymateb i'r ymgynghoriad

Mae'r cwestiynau isod yn ymwneud â'r strategaeth ddrafft, sydd ar gael ar wahân (dolen). Rhennir y cwestiynau yn pump rhan:

1. Amodau
2. Rolau a Chyfrifoldebau
3. Llywodraethu
4. Cynllun Cyflawni
5. Cwestiynau Olaf

Sylwch, **nid oes gofyn i chi ateb bob cwestiwn.**

Lle bo'n bosibl, **eglwurwch eich atebion a rhowch enghreifftiau, tystiolaeth neu astudiaethau achos i gefnogi eich barn.**

Gwybodaeth bersonol

Cyfrinachedd

Gellir cyhoeddi ymatebion i ymgynghoriadau ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad.

Os hoffech i enw'ch **sefydliad** yn unig gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, rhowch groes yma: ☐

Os hoffech i'ch **enw a'ch sefydliad** gael eu cyhoeddi ochr yn ochr â'ch ymateb, rhowch groes yma: ☐

Pe bai'n well gennych i'ch ymateb **aros yn ddienw**, rhowch groes yma: ☐

Eich enw:

Eich sefydliad (os yw'n berthnasol):

Manylion cyswllt a chyfeiriad e-bost:

Esboniwch eich diddordeb yn y strategaeth ddrafft:

- ☐ Aelod o'r cyhoedd
- ☐ Gweithiwr proffesiynol yn ymateb fel unigolyn
- ☐ Ymateb sefydliadol
- ☐ Mae'n well gen i beidio â dweud

Rhan 1: Amodau

Mae'r strategaeth ddrafft yn nodi pum amod sy'n hanfodol er mwyn cynyddu cyllid natur yng Nghymru:

- **Fframweithiau polisi a rheoleiddio effeithiol:** er mwyn creu sicrwydd, galw a chymhellion ar gyfer buddsoddi.
- **Llinellau sylfaen a thargedau clir:** er mwyn nodi blaenoriaethau a llywio buddsoddiadau tuag at y manteision amgylcheddol a chymdeithasol mwyaf.
- **Llifau refeniw rhagweladwy a digonol:** er mwyn creu cynigion y gellir buddsoddi ynddynt a denu cyllid.
- **Mecanweithiau ariannu a seilwaith ategol:** er mwyn cysylltu'r galw am ganlyniadau amgylcheddol â'r rhai sy'n gallu eu cyflawni.
- **Safonau, sicrwydd a mesurau diogelu cadarn:** er mwyn cynnal ymddiriedaeth, tryloywder a chadernid amgylcheddol.

Gweler y strategaeth ddrafft i gael disgrifiad o'r amodau hyn a thablau sy'n dangos aeddfedrwydd yr amodau hyn yng Nghymru.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 1a: Ydych chi'n credu mai'r pum amod a nodir yn y strategaeth ddrafft yw'r sylfeini cywir ar gyfer cynyddu cyllid natur yng Nghymru?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod/ansicr

Esboniwch eich ateb:

--

Cwestiwn 1b: Beth, os rhywbeth, y dylid ei gryfhau, ei newid neu ei egluro yn yr amodau a nodir yn y strategaeth ddrafft?

Amod	Sylwadau/adborth
Fframweithiau polisi a rheoleiddio effeithiol	
Llinellau sylfaen a thargedau clir	
Llifau refeniw rhagweladwy a digonol	
Mecanweithiau ariannu a seilwaith ategol	
Safonau, sicrwydd a mesurau diogelu cadarn	

Cwestiwn 1c: Ydych chi'n credu bod y nodweddion a ddefnyddir i asesu parodrwydd Cymru i gynyddu cyllid natur yn briodol?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod/ansicr

Esboniwch eich ateb:

--

Cwestiwn 1d: Ydych chi'n credu bod sgôr aeddfedrwydd y nodweddion yn adlewyrchu'r sefyllfa yng Nghymru yn gywir?

Amod	Ydw	I ryw raddau	Nac ydw
Fframweithiau polisi a rheoleiddio effeithiol	☐	☐	☐
Llinellau sylfaen a thargedau clir	☐	☐	☐
Llifau refeniw rhagweladwy a digonol	☐	☐	☐
Mecanweithiau ariannu a seilwaith ategol	☐	☐	☐
Safonau, sicrwydd a mesurau diogelu cadarn	☐	☐	☐

Os mai 'I ryw raddau' neu 'Nac ydw' oedd eich ateb, nodwch pa nodwedd(ion) rydych chi'n anghytuno â nhw ac esboniwch pa sgôr fyddai'n fwy priodol yn eich barn chi:

Amod	Nodwedd(ion)	Sylwadau/adborth (yn cynnwys tystiolaeth)
Fframweithiau polisi a rheoleiddio effeithiol		
Llinellau sylfaen a thargedau clir		
Llifau refeniw rhagweladwy a digonol		
Mecanweithiau ariannu a seilwaith ategol		
Safonau, sicrwydd a mesurau diogelu cadarn		

Rhan 2: Rolau a chyfrifoldebau

Mae system cyllido natur sy'n gweithio'n dda yn debygol o ddibynnu ar sefydliadau arbenigol yn cyflawni swyddogaethau gwahanol yn hytrach na sefydliadau unigol yn ceisio cyflawni'r broses gyfan o'r dechrau i'r diwedd. Mae cyllid natur yn gyfrifoldeb ar y cyd sy'n gofyn i ni gydlynu gweithredu ar draws y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Mae'r strategaeth ddrafft yn nodi'r swyddogaethau craidd y gall gwahanol sefydliadau eu cyflawni, sy'n ofynnol ar gyfer system cyllido natur effeithlon:

- **Llywodraeth Cymru:** Gosod cyfeiriad strategol; sicrhau bod polisïau, targedau ac amodau galluogi yn gyson; cymeradwyo safonau a methodolegau; helpu i ddatblygu llywodraethiant a seilwaith ategol.
- **Cyllidwyr a buddsoddwyr:** Darparu cyllid ar gyfer prosiectau a gweithgareddau sy'n rhoi'r manteision rydyn ni eu heisiau, gan greu galw am fuddsoddiad mewn adnoddau naturiol.
- **Yswirwyr a rheolwyr risg:** Rheoli, trosglwyddo a rhannu risgiau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau a buddsoddiadau cyllid natur.
- **Cyfyngwyr a gweithredwyr mecanweithiau:** Cysylltu'r cyflenwad â'r galw; helpu i ddatblygu a chyfuno prosiectau; hwyluso trafodion a rhannu gwybodaeth; helpu mecanweithiau ariannu i weithio'n effeithlon.
- **Datblygwyr prosiectau:** Llunio, strwythuro a pharatoi prosiectau i ddenu buddsoddiad a sicrhau canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol.
- **Sefydliadau monitro a dilysu:** Mesur, adrodd a dilysu amodau sylfaenol a chanlyniadau, gan ddarparu sicrwydd annibynnol bod canlyniadau a chredydau amgylcheddol wedi'u cyflawni.
- **Cynghorwyr proffesiynol:** Darparu arbenigedd ecolegol, cyfreithiol, ariannol a rheoli tir i helpu i ddatblygu a chynnal gweithgareddau cyllido natur, a rhoi sicrwydd mewn perthynas â nhw.
- **Cyrff rheoleiddio a goruchwyllo:** Sicrhau cydymffurfiaeth â safonau, rheolau a gofynion rheoleiddio, a goruchwyllo gweithredu a chyflawni.
- **Ymchwilwyr a darparwyr tystiolaeth:** Cynhyrchu tystiolaeth a helpu i fireinio safonau, metrigau, mecanweithiau a dulliau cyflawni yn barhaus.
- **Cyflenwyr a phartneriaid cyflenwi:** Rheoli asedau amgylcheddol (ar draws y tir a'r môr) a darparu gwasanaethau ecosystem a chanlyniadau amgylcheddol yn gyfnewid am daliadau neu fuddsoddiad.
- **Cymunedau a rhanddeiliaid:** Helpu i lunio, cyd-ddylunio, cyflawni a goruchwyllo gweithgarwch cyllido natur, gan sicrhau bod gwybodaeth, blaenoriaethau a manteision lleol yn cael eu hadlewyrchu wrth wneud penderfyniadau drwy gyfranogiad ystyrlon.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 2a: Ydych chi'n credu bod y swyddogaethau a nodir yn y strategaeth ddrafft yn ddigonol i gefnogi'r gwaith o ddarparu cyllid natur yng Nghymru?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod/ansicr

Esboniwch eich ateb:

Cwestiwn 2b: A hoffech chi rannu unrhyw beth penodol am unrhyw un o'r swyddogaethau craidd? Gallwch wneud sylwadau ar gynifer neu gyn lleied ag y mynnwch.

Y swyddogaeth	Sylwadau/adborth
Llywodraeth Cymru	
Cyllidwyr a Buddsoddwyr	
Yswirwyr a Rheolwyr Risg	
Cyfryngwyr a Gweithredwyr Mekanweithiau	
Datblygwyr Prosiectau	
Sefydliadau Monitro a Gwirio	
Cynghorwyr proffesiynol	
Cyrff Rheoleiddio a Goruchwyllo	
Ymchwilwyr a Darparwyr Tystiolaeth	
Cyflenwyr a Phartneriaid Cyflenwi	
Cymunedau a rhanddeiliaid	


Cwestiwn 2c: Pa rôl, os o gwbl, allech chi neu'ch sefydliad ei chwarae yn y system cyllido natur yng Nghymru?

Disgrifiwch eich rôl yn gryno:

--

Rhan 3: Llywodraethu

Mae'r strategaeth ddrafft yn cynnig model llywodraethu dangosol a set o egwyddorion llywodraethu i helpu i gydlynu gweithredu, meithrin ymddiriedaeth a sicrhau bod buddsoddiadau yn sicrhau canlyniadau amgylcheddol a chymdeithasol gwirioneddol. Mae'r model yn cydnabod rolau'r llywodraeth, cyrff cyhoeddus, busnesau, buddsoddwyr, rheolwyr tir, cymunedau a chyfryngwyr, ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd goruchwyllo, tryloywder, atebolrwydd a rheoli hyblyg. Mae hefyd yn cydnabod gwerth sicrhau cysondeb â fframweithiau ehangach y DU a rhai rhyngwladol lle bo hynny'n briodol, gan adlewyrchu blaenoriaethau ac amgylchiadau Cymru. Dangosir y model hwn isod:



Gweler y strategaeth ddrafft i gael disgrifiad manylach o'r model a'r egwyddorion llywodraethu hyn.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 3a: Ydych chi'n credu bod y model dangosol a'r egwyddorion llywodraethu yn rhoi'r cydbwysedd cywir rhwng galluogi buddsoddiad a chynnal cadernid amgylcheddol, tryloywder a gwerth cyhoeddus?

- ☐ Ydw
- ☐ Nac ydw
- ☐ Ddim yn gwybod/ansicr

Esboniwch eich ateb:

Cwestiwn 3b: A oes unrhyw beth arall yr hoffech ei rannu am y model dangosol a'r egwyddorion llywodraethu?

Rhan 4: Cynllun cyflawni

Mae'r strategaeth ddrafft yn cynnwys cynllun cyflawni tri cham sy'n rhestru'r camau blaenoriaeth sydd eu hangen i greu'r amodau ar gyfer cynyddu cyllid natur.

Cam 1 (2026-2027): Creu'r amodau galluogi

1. Cyhoeddi Strategaeth Cyllid Natur Cymru a sefydlu rhaglen cyllid natur drawslywodraethol
2. Adolygu polisiau, trefniadau rheoleiddio a gwariant cyhoeddus i nodi cyfleoedd i gynyddu buddsoddiad mewn canlyniadau amgylcheddol
3. Sefydlu tystiolaeth, llinellau sylfaen ac anghenion cyllido i nodi blaenoriaethau buddsoddi ar sail lle a datblygu piblinell o gyfleoedd ar draws amgylcheddau gwledig, arfordirol a threfol
4. Gwella ein dealltwriaeth o ddatgeliadau sy'n gysylltiedig â natur a'r hyn sy'n ysgogi'r galw yn y sector preifat a fframweithiau adrodd sy'n dod i'r amlwg yn y DU
5. Cyhoeddi canllawiau ar gyfuno cyllid cyhoeddus a phreifat, gan gynnwys cymysgu, pentyrru ac ychwanegedd
6. Meithrin galluedd, cydweithio a chymunedau ymarfer
7. Treialu mecanweithiau ariannu â blaenoriaeth a datblygu piblinellau o brosiectau sy'n barod am fuddsoddiad

Cam 2 (2028-2030): Datblygu'r systemau

8. Ehangu a mireinio mecanweithiau cyllido â blaenoriaeth yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o gynlluniau peilot
9. Sicrhau cysondeb rhwng gwariant cyhoeddus a rhaglenni cyllido â chanlyniadau amgylcheddol ar gyfer adnoddau naturiol
10. Datblygu'r seilwaith sydd ei angen i gefnogi cyllid natur: cofrestri, cytundebau cyfreithiol, systemau data, platfformau
11. Datblygu fframwaith ar gyfer cytuno a chymeradwyo safonau, metrigau, MRV (mesur, adrodd a dilysu) a mesurau diogelu
12. Datblygu cyllid cyfunol, contractio hirdymor a dulliau rhannu risg
13. Datblygu ysgogwyr polisi a galw'r farchnad: caffael, datgeliadau, cymhellion, mesurau cyllidol
14. Cryfhau trefniadau llywodraethu, tryloywder a goruchwyllo i gynnal hyder a gwerth cyhoeddus

Cam 3 (2030 ymlaen): Ehangu ac ymgorffori

15. Ehangu dulliau ariannu sydd â sawl mantais ar draws amgylcheddau gwledig, arfordirol a threfol
16. Ehangu mecanweithiau ariannu llwyddiannus a modelau cyfranogiad y sector preifat
17. Ymgorffori buddsoddiad amgylcheddol mewn penderfyniadau prif ffrwd ar draws y llywodraeth, sefydliadau ariannol a busnesau
18. Cynnal polisi a signalau clir a sefydlog ar gyfer y farchnad i gefnogi buddsoddi hirdymor
19. Sefydlu Cymru fel cyrchfan flaenllaw ar gyfer buddsoddi gonest a moesegol mewn adnoddau naturiol
20. Monitro, gwerthuso a gwella'r system cyllido natur yn barhaus

Gweler y strategaeth ddrafft i gael disgrifiad o'r cynllun cyflawni a gwybodaeth am y canlyniadau y mae'r camau gweithredu'n eu cefnogi.

Cwestiynau'r ymgynghoriad

Cwestiwn 4a: Ydych chi'n credu mai'r camau gweithredu a nodir yn y cynllun cyflawni yw'r blaenoriaethau cywir ar gyfer datblygu cyllid natur yng Nghymru?

- ☐ Ydw
- ☐ Yn rhannol
- ☐ Nac ydw

Esboniwch eich ateb, gan nodi unrhyw gamau y byddech chi'n eu newid, eu dileu neu eu hychwanegu, a pham:

Cwestiwn 4b: Ydych chi'n cytuno â dilyniant y camau gweithredu a'r blaenoriaethu a gynigir ar draws y tri cham?

- ☐ Ydw
- ☐ Yn rhannol
- ☐ Nac ydw

Esboniwch eich ateb:

Cwestiwn 4c: Pa gamau gweithredu yn y cynllun cyflawni ydych chi neu'ch sefydliad eisoes yn cyfrannu atynt?

- | | | | | |
|-----------------------------|-----------------------------|-----------------------------|-----------------------------|-----------------------------|
| ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| ☐ 6 | ☐ 7 | ☐ 8 | ☐ 9 | ☐ 10 |
| ☐ 11 | ☐ 12 | ☐ 13 | ☐ 14 | ☐ 15 |
| ☐ 16 | ☐ 17 | ☐ 18 | ☐ 19 | ☐ 20 |

Nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol yr hoffech ei rhannu:

Cwestiwn 4d: Pa gamau gweithredu yn y cynllun cyflawni allech chi neu'ch sefydliad eu cefnogi yn y dyfodol?

- | | | | | |
|-----------------------------|-----------------------------|-----------------------------|-----------------------------|-----------------------------|
| ☐ 1 | ☐ 2 | ☐ 3 | ☐ 4 | ☐ 5 |
| ☐ 6 | ☐ 7 | ☐ 8 | ☐ 9 | ☐ 10 |
| ☐ 11 | ☐ 12 | ☐ 13 | ☐ 14 | ☐ 15 |
| ☐ 16 | ☐ 17 | ☐ 18 | ☐ 19 | ☐ 20 |

Nodwch unrhyw wybodaeth ychwanegol yr hoffech ei rhannu:

Cwestiwn 4e: Pa gymorth fyddai ei angen arnoch chi neu'ch sefydliad i gyfrannu at gyflawni'r strategaeth? Ticiwch bob un sy'n berthnasol.

- ☐ Dim
- ☐ Trefniadau rhannu data
- ☐ Cyllid
- ☐ Capasiti neu adnodd staff
- ☐ Partneriaethau a chydweithio
- ☐ Cymorth cyfreithiol neu gytundebol
- ☐ Safonau
- ☐ Arbenigedd a sgiliau technegol
- ☐ Arall, rhowch fanylion: _____

Esboniwch eich ateb:

Cwestiwn 4f: Oes gennych unrhyw awgrymiadau ar gyfer modelau, cynlluniau neu ddulliau cyllido natur y gellid eu profi yng Nghymru?

Rhowch fanylion ac unrhyw enghreifftiau, prosiectau peilot neu ddulliau ymarferol:

Rhan 5: Cwestiynau olaf

Cwestiwn 5a: Pa mor bwysig yw cyllid natur yn eich barn chi i wireddu'r uchelgeisiau canlynol i Gymru?

Uchelgais	Pwysig iawn	Pwysig	Ddim yn bwysig nac yn ddibwys	Dibwys	Ddim yn gwybod
Adfer natur a gwrthdroi colli bioamrywiaeth	☐	☐	☐	☐	☐
Gwella ein gallu i wrthsefyll newid hinsawdd (addasu)	☐	☐	☐	☐	☐
Lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr	☐	☐	☐	☐	☐
Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy	☐	☐	☐	☐	☐
Gwella ansawdd dŵr ac adfer afonydd, arfordiroedd a moroedd	☐	☐	☐	☐	☐
Cefnogi cymunedau a busnesau gwledig gwydn	☐	☐	☐	☐	☐
Cefnogi cymunedau a busnesau arfordirol gwydn	☐	☐	☐	☐	☐
Cyflawni twf economaidd cynaliadwy a darparu swyddi gwyrdd	☐	☐	☐	☐	☐
Cyflawni'r Nodau Llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol	☐	☐	☐	☐	☐

Cwestiwn 5b: Yn eich barn chi, beth fyddai effeithiau tebygol y strategaeth ddrafft ar y Gymraeg? Mae gennym ddiddordeb arbennig mewn unrhyw effeithiau tebygol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

--

Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i hyrwyddo unrhyw effeithiau cadarnhaol?
--

--

Ydych chi'n credu bod cyfleoedd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol?

--

Cwestiwn 5c: Yn eich barn chi, a fyddai modd llunio neu newid y strategaeth ddrafft er mwyn gwneud y canlynol:

Cael effeithiau cadarnhaol, neu effeithiau mwy cadarnhaol, ar ddefnyddio'r Gymraeg, ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; neu

--

Liniaru unrhyw effeithiau negyddol ar ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?
--

--

Cwestiwn 5d: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad hwn. Os oes gennych unrhyw sylwadau, tystiolaeth, astudiaethau achos neu enghreifftiau ychwanegol a fyddai'n helpu i wella'r strategaeth ddrafft, rhowch nhw isod:

Atodiad 1: Rhanddeiliaid sydd wedi bod yn rhan o'r gwaith hyd yn hyn

- Admiral
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
- Afonydd Cymru
- Arup
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
- Banc Datblygu Cymru
- Broadway Initiative
- Bwrdd Marchnadoedd Amgylcheddol
- Bwrdd Rheoli Maetholion De-orllewin Cymru
- Canolfan Cofnodion Bioamrywiaeth y De Ddwyrain
- Canolfan Ecoleg a Hydroleg y DU
- Cenedlaethau'r Dyfodol
- Climate Cymru
- Community Inclusion Standard
- Consortiwm Natur Gogledd Cymru
- CreditNature
- Cronfa Marine Cymru
- Y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Sir Gâr
- Cyngor Sir Powys
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Cymdeithas Tir a Busnesau Cefn Gwlad Cymru
- Cyswllt Amgylchedd Cymru
- De Cymru Newydd
- Diwydiant Sero Net Cymru
- DUAL
- Dŵr Cymru
- EnTrade
- Environment Bank
- Environment Systems
- Finance Earth
- First Milk
- Food, Farming and Countryside Commission Wales
- Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi
- Fforwm Arfordir Sir Benfro
- Gaia Sicura Ltd.
- Great Yellow
- Green Finance Institute
- Gresham House
- Y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar
- Howden Group
- Kana
- Landscape Enterprise Networks
- Lloyds Bank
- Llywodraeth yr Alban
- Llywodraeth Cymru
- Llywodraeth De Cymru Newydd
- Llywodraeth y DU
- National Landscapes
- Natural England
- Nature Markets Dialogue
- Partneriaeth y Gororau Ymlaen
- Partneriaeth Moroedd ac Arfordiroedd Cymru
- Prifysgol Caerdydd
- Prifysgol Caerwysg
- Puffin Produce a Pembrokeshire Creamery
- Redpill
- Renew Earth
- Sefydliad Gwy ac Wysg
- Y Sefydliad Safonau Prydeinig
- Soil Association Certification
- Stabiliti
- Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
- The Nature Conservancy
- Triodos
- Undeb Amaethwyr Cymru
- Undeb Cenedlaethol Amaethwyr Cymru
- Wilder Carbon
- Ymddiriedolaethau Natur Cymru
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru
- Zora

Atodiad 2: Rhestr o ymg yngoreion

- Pob un yn Atodiad 1, yn ogystal â'r canlynol:
- Arcadis
- Awdurdodau Lleol yng Nghymru
- Climatise UK
- Clymblaid Hinsawdd Busnes De-ddwyrain Cymru
- Coed Cadw
- Comisiwn Dylunio Cymru (DTA Wales)
- Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru
- Dinam Estates
- Eunomia Research & Consulting
- Y Grid Cenedlaethol
- Hafren Dyfrdwy
- Heather Michell Associates
- Llais y Goedwig
- Network Rail
- Partneriaethau Natur Lleol
- Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
- Prifysgol Rhydychen
- Pwyllgor Cyngori Gwyddonol Cymru
- Rewilding Britain
- Tir Natur
- Wales and West Utilities
- Worldwide Fund for Nature
- Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru
- Ymddiriedolaeth Natur Sir Faesyfed
- Ystad y Goron

Y rhai sy'n derbyn copi

- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
- Llywodraeth yr Alban
- Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Gogledd Iwerddon
- Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd
- Safonau Amgylcheddol yr Alban
- Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru